Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 01/02/2022 |
| **Pwnc / Subject:** | **Ymgynghoriad ar adnewyddu'r Strategaeth Genedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gyfer 2022 i 2026** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Rydym yn croesawu'r cynllun arfaethedig i adnewyddu'r Strategaeth Genedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gyfer 2022-26 ('y strategaeth'). Mae ein hadroddiad diwethaf 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon' am brofiadau pobl ifanc o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn tanlinellu'r angen i herio rhywiaeth a chasineb at fenywod bob dydd, ac yn ymgorffori dealltwriaeth, agweddau ac ymddygiadau cadarnhaol yn gynnar. Mae'r strategaeth yn nodi blaenoriaethau sy'n cyfateb yn dda i'r argymhellion yn ein hadroddiad, fel amcan 2, sef 'cynyddu ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a'u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol'.

Teimlwn fod y blaenoriaethau a'r amcanion yn addas. Mae'r glasbrint ar gyfer llywodraethu ar y cyd yn uchelgeisiol a thra ystyriol a cheir synnwyr clir o gyfeiriad a diben cenedlaethol. Mae'n iawn fod pwyslais cryf ar sicrhau cysondeb ar draws partïon a ffrydiau gwaith i sicrhau cydraddoldeb ar draws pob ardal yng Nghymru.

Fodd bynnag, teimlwn y gellid cryfhau'r strategaeth mewn mannau trwy:

- Aildrefnu'r amcanion i ddechrau â'r amcanion rhagweithiol a ddilynir gan amcanion ymatebol
- Ychwanegu mwy o fanylion at feysydd fel brîff gwaith yr is-grwpiau a'r byrddau rhanbarthol
- Cynnwys gwybodaeth am rôl awdurdodau lleol unigol o fewn y byrddau rhanbarthol, yn enwedig yr adran addysg o ganlyniad i'w cyfrifoldeb dros ddarpariaeth ysgolion ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
- Cynnwys llinell amser glir gyda phwyntiau adolygu addas a chytûn i fesur cynnydd yn erbyn camau gweithredu a thargedau

## Cwestiwn 1

Rydym wedi amlinellu ein prif flaenoriaethau yn yr **Amcanion**. Ydych chi'n meddwl mai'r rhain yw'r blaenoriaethau cywir?

Ydym

Rhowch resymau dros eich ateb:

Credwn fod y blaenoriaethau a amlinellir yn y 6 amcan yn addas ac yn cwmpasu ystod briodol o strategaethau rhagweithiol ac ymatebol. Rydym yn meddwl y gallai fod yn fuddiol aildrefnu'r amcanion i ddechrau â'r amcanion ataliol yn gyntaf, wedi'u dilyn gan yr amcanion ymatebol. I gryfhau'r negeseuon yn yr amcanion, byddai'n fuddiol ychwanegu mwy o fanylion at Amcan 4. Teimlwn y byddai hefyd yn fuddiol addasu geiriad Amcan 5 i weddu i ramadeg ac arddull yr amcanion eraill, er enghraifft 'Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr'.

## Cwestiwn 2

Ydych chi'n meddwl mai'r ymagwedd gyffredinol y byddwn yn ei harddel, fel yr amlinellir yn yr adrannau ar y **Glasbrint**, yw'r un cywir i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?

Ydym

Rhowch resymau dros eich ateb:

Mae'r glasbrint ar gyfer strwythur llywodraethu ar y cyd yn uchelgeisiol a thra ystyriol. Mae cwmpas aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol yn eang a chynhwysfawr. Byddai'n fuddiol cael rhywfaint o eglurder a manylion ynghylch gwaith cynlluniedig y byrddau rhanbarthol.

Mae'r is-grwpiau arfaethedig sy'n alinio â'r Rhaglen Genedlaethol yn synhwyrol ac yn cwmpasu meysydd disgwyliedig trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (TEMCDThRh), ar y cyfan. Nid ydym yn meddwl bod yr adran ar 'Aflonyddu ar y Stryd' yn adlewyrchu'n llawn gwmpas y gwaith a amlinellir, sy'n cynnwys trais yn erbyn menywod a thrais rhywiol, ac yn awgrymu diwygio'r adran hon i 'Aflonyddu a Thrais ar y Stryd'. Byddai'n fuddiol deall pa is-grwpiau fydd yn gyfrifol am gwmpasu a datblygu polisi'r 13 maes gwaith a restrir.

Byddai'n fuddiol ystyried sut mae gwybodaeth o waith yr is-grwpiau yn bwydo i mewn i waith gweithwyr addysg proffesiynol wrth iddynt gyflwyno'r Cod a'r Canllawiau Statudol newydd ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Hefyd, efallai y byddai'n fuddiol ystyried pa gysylltiadau sy'n cael eu gwneud gyda grwpiau llywodraethu sy'n goruchwylio gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, ac yn arbennig y Cod a Chanllawiau Statudol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

## Cwestiwn 3

Rydym wedi amlinellu'r egwyddorion sy'n ategu'r **Strategaeth Genedlaethol** ddrafft. Ydych chi'n cytuno â'r rhain?

Ydym

Rhowch resymau dros eich ateb:

Rydym yn cytuno â'r egwyddorion y tu ôl i'r strategaeth. Maent yn eang, yn gynhwysfawr ac yn dra ystyriol. Mae'r egwyddorion yn cwmpasu sbectrwm cyflawn TEMCDThRh. Mae'r ffocws cryf ar ymagwedd gydweithredol, amlasiantaethol ac amlweddog yn uchelgeisiol ac yn arloesol.

## Cwestiwn 4

Ydych chi'n cytuno â'n **blaenoriaethau uniongyrchol**?

Ydym

Rhowch resymau dros eich ateb:

Mae'r blaenoriaethau uniongyrchol yn synhwyrol a thra ystyriol. Ceir synnwyr clir o gyfeiriad a diben. Mae edefyn cryf i sicrhau cysondeb ar draws partïon a ffrydiau gwaith. Byddai'n fuddiol cynnwys mwy o fanylion am 'adolygu a mireinio' rôl Byrddau Rhanbarthol TEMCDThRh.

## Cwestiwn 5

Beth ydych chi'n meddwl yw'r peth pwysicaf y gallwn ni ei wneud i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?

Codi ymwybyddiaeth trwy:

- Ymgyrchoedd cyhoeddus proffil uchel
- Ymgyrchoedd rhagweithiol ar y teledu a'r cyfryngau cymdeithasol
- Ymagwedd gydlynus at gymorth ataliol
- Darpariaeth gynhwysfawr (yn briodol i oedran) ar draws pob lleoliad addysg
- Trafodaethau agored yn canolbwyntio ar atebion mewn ystod o fforymau

## Cwestiwn 6

Ydych chi'n meddwl bod yna unrhyw beth y dylem ni fod yn ei wneud fel rhan o'r Strategaeth hon sy'n gallu cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

Mae'r Glasbrint yn rhoi pwys ar waith Byrddau Rhanbarthol ac ar sicrhau cysondeb 'ymagwedd Cymru gyfan tra'n adlewyrchu gwahaniaeth rhanbarthol o hyd'. Mae'n bwysig ystyried argaeledd a darpariaeth ar gyfer gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl feysydd. Mae'n hanfodol sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi'n deg a chyfartal ble mae'n well gan ddioddefwyr, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd gyfathrebu yn Gymraeg.

## Cwestiwn 7

A oes yna unrhyw bethau eraill rydych chi'n meddwl y dylem ni eu gwneud i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, neu a oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?

Byddai'n fuddiol cynnwys rhywfaint o fanylion am waith rhagweithiol ac ataliol mewn cydweithrediad ag awdurdodau addysg lleol a chonsortia rhanbarthol fel rhan o gyflwyno'r Cod a'r Canllawiau newydd ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Efallai byddai'n ddiddorol nodi y byddwn yn cynnal adolygiad o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn colegau addysg bellach yn ystod 2022-2023. Rydym yn bwriadu gweithio gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, a fydd yn cynnal adolygiad tebyg mewn addysg uwch ar ran CCAUC.

Un maes pryder a godwyd ar ein gwaith gydag ysgolion oedd rôl chwarae gemau ar-lein wrth hyrwyddo neu ddatblygu agweddau'n ymwneud â chasineb at fenywod. A ellir gwneud mwy, er enghraifft trwy ddylanwadu ar Fil Diogelwch Ar-lein presennol y DU, i atal hyn rhag digwydd?

## Cwestiwn 8

Sut dylem ni fesur cynnydd a llwyddiant o ran cyflawni'r pethau a amlinellir yn y Strategaeth hon?

Gellid cryfhau'r Strategaeth trwy gynnwys llinell amser glir gyda phwyntiau adolygu addas a chytûn i fesur cynnydd yn erbyn camau gweithredu a thargedau. Dylid mesur cynnydd gan ddefnyddio ystod eang a chynhwysfawr o wybodaeth, yn cynnwys data cenedlaethol / rhanbarthol a thystiolaeth uniongyrchol, a gwerthusiad ohonynt.

## Cwestiwn 9

Ydych chi'n cytuno â **chwmpas y Strategaeth**?

Ydym

Rhowch resymau dros eich ateb:

Mae'r cwmpas yn glir, yn bwrpasol ac yn gyfiawn. Mae cydnabod bod cam-drin a thrais yn gallu digwydd mewn amrywiaeth o senarios yn allweddol i'r strategaeth. Mae cydnabod mai'r cam-drin sy'n diffinio cwmpas y strategaeth hon, nid rhywedd y cyflawnwr neu'r goroeswr, neu fel arall, hefyd yn bwysig. Fodd bynnag, mae'r

strategaeth yn iawn i ganolbwyntio'n bennaf ar y brif broblem gymdeithasol, sef trais gan ddynion a cham-drin tuag at fenywod. Diben clir a phrif ddiben y Strategaeth yw newid agweddau at drais gan ddynion ar lefel unigol a chymdeithas yn ehangach. Mae'r cysylltiad â chryfhau a datblygu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru (fel Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) yn glir a phwrpasol.

## Cwestiwn 10

Rydym wedi cynnig trefniadau llywodraethu, sy'n cynnwys gweithio gyda sefydliad partner allweddol a nifer o is-grwpiau / ffrydiau gwaith i fynd i'r afael â materion penodol. Ydych chi'n meddwl y bydd cydweithio fel hyn yn gwella cydlynu gwaith i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?

Ydym

Rhowch resymau dros eich ateb:

Rydym yn meddwl bod cydweithio â phartneriaid allweddol yn ymagwedd synhwyrol. Credwn y dylai nodi meysydd cyfrifoldeb allweddol ar gyfer is-grwpiau perthnasol sicrhau bod gan bob sefydliad berchnogaeth ac atebolrwydd ar y cyd o ran y strategaeth genedlaethol.

## Cwestiwn 11

Ydych chi'n weithiwr proffesiynol, sy'n gweithio gyda dioddefwyr, goroeswyr a chyflawnwyr TEMCDThRh?

Nac ydw

## Cwestiwn 12

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd arnynt:

Gallai fod yn fuddiol ailedrych ar strwythur iaith a brawddegau'r strategaeth sydd ar waith i sicrhau ei bod yn glir ar gyfer yr holl randdeiliaid. Er enghraifft, mae rhai o'r brawddegau yn yr adran 'Aflonyddu ar y Stryd' yn hir a gellid eu byrhau i wneud yr ystyr yn gliriach i'r holl ddarllenwyr.

**Enw: Owen Evans PAEM**

**Sefydliad (os yw'n berthnasol): Estyn**

**Cyfeiriad e-bost: Owen.Evans@estyn.llyw.cymru**

**Gallai ymatebion i ymgynghoriadau gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddienw (yn cynnwys cyfeiriadau e-bost), ticiwch y blwch:**

☐